

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	12 Rhagfyr 2022
TEITL	Balansau Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2021/22
PWRPAS	Cyflwyno er gwybodaeth
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad
AWDUR	Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion

1 Cyfrifon Terfynol 2021/22

- 1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2022 (**atodiad 1**).
- 1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2022 -

	canran	31/03/2021	cynnydd+/ lleihad-	31/03/2022	canran
Cynradd	15.91%	£5,847,190	+£3,278,112	£9,125,302	24.35%
Dilydol	11.54%	£656,128	+£187,657	£843,785	14.64%
Uwchradd	11.09%	£3,848,723	+£2,217,544	£6,066,267	16.69%
Arbennig	9.52%	£401,222	+£260,374	£661,596	15.35%
Cyfanswm	13.22%	£10,753,263	+£5,943,688	£16,696,951	19.90%

- 1.3 Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn eithriadol arall yn sgil COVID-19. Derbyniwyd grantiau ar gyfer Cyflymu Dysgu ac i ddi-golledu am absenoldebau staff.
- 1.4 Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru yn 2021/22 er mwyn rhyddhau adnoddau i ysgolion yn 2022/23, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd. Tydi sefyllfa balansau ysgolion Gwynedd ddim yn unigryw.
- 1.5 Wrth osod cyllidebau 2022/23 mae ysgolion wedi adnabod defnydd o balansau gwerth £7.5miliwn gyda symiau sylweddol ar gyfer cynlluniau unwaith ac am byth.
- 1.6 Nid oedd yr un ysgol mewn diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 1.7 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £6,738,553 ar 31/03/2021 i £12,507,486 ar 31/03/2022. Un ysgol sydd ddim gyda balansau dros 5%.

2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

- 2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.
- 2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –
- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 13 Gorffennaf 2022
 - yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2022
 - adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2022
 - mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol
- 2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –
- 68 ysgol gynradd (amrywio rhwng £1,588-£223,049 uwchben trothwy £50mil)
 - 2 ysgol ddilynol (amrywio rhwng £234,295-£409,490 uwchben trothwy £100mil)
 - 12 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £201,479-£874,226 uwchben y trothwy £100mil)
 - 2 ysgol arbennig (amrywio rhwng £218,168-£243,428 uwchben y trothwy £100mil)

3. Casgliad

- 3.1 Mae datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2022 wedi'i gyhoedd ers 27 Hydref 2022 (gweler linc isod). Mae balansau ysgolion Cymru wedi cynyddu £120.8miliwn rhwng 2021 a 2022. Gwynedd oedd gyda balansau uchaf y pen o £1,012 gyda Ceredigion yn ail hefo £911 y pen - dau awdurdod tebyg o ran ysgolion ac ardaloedd gwledig.

[Reserves held by schools in Wales at 31 March 2022 \(gov.wales\)](https://gov.wales)

4. Argymhelliad

- 4.1 **Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd ar gael yn 2022/23.**
- 4.2 **Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**